Richard Evans: 1905-2001

Llywiwr y bad achub

Cadernid / ffyddlondeb / dewrder

Ydych chi wedi gweld bad achub yn cael ei lansio i'r môr? Fel arfer, bydd y bad achub yn mynd allan pan fo'r tywydd yn ddrwg. Mae'r stori hon yn sôn am brif lywiwr bad achub Moelfre, Ynys Môn. Fe gafodd Richard, neu Dic i'w ffrindiau, ddwy fedal aur.

Deng munud i hanner dydd a dyma gloch y teliffon yn canu. Newydd fod yn sôn am rywbeth i ginio roedd Dic a'i wraig Nansi.

"Pwy sydd yna rŵan?" meddai Dic wrth ei wraig a brasgamodd am y ffôn. Capten Owen Roberts, gwyliwr y glannau oedd ar y ffôn.

"Mae yna long, yr *Hindlea*, yn drifftio tua'r creigiau, Dic, ac er ei bod yn storm enbyd mae'n rhaid i chi fynd allan."

Anghofiodd Dic am y cinio. Ffarweliodd â'i wraig ac aeth i wynebu storm fwya'r ganrif. Pan gyrhaeddodd gwt y bad achub dim ond ychydig o'r hogiau oedd wedi cyrraedd. Doedd un ohonyn nhw, Hugh Jones, erioed wedi bod ar fwrdd y bad achub. Doedd dim amdani ond lansio'r cwch, yr *Edmund and Mary Robinson,* i'r môr.

Rhuai'r gwynt o gyfeiriad y gogledd-ddwyrain. Roedd y tonnau'n lluchio dros y cwch.

"Mae hon yn storm enbyd, Ifan," meddai Dic wrth beiriannydd y cwch. Fedrai Ifan ddim dweud gair. Roedd y tonnau enfawr yn taro'r heli ar ei wyneb. Cydiai gweddill y criw yn dynn yn ochrau'r bad achub.

Ar ôl awr o ddyrnu mynd yn erbyn y tonnau roedd y cwch wedi cyrraedd yr *Hindlea*. Llong fasnach oedd hon ar ei ffordd o Fanceinion i Gasnewydd. Yn ôl pob hanes roedd wyth o griw ar ei bwrdd. Llwyddodd y bad achub i gyrraedd y llong, ond roedd yn cael ei hyrddio fel corcyn ar wyneb y tonnau. Bob hyn a hyn, codai ton oedd yn uwch na'r lleill a tharo ar ddec y cwch.

Doedd dim amser i feddwl. Hyrddiodd Dic y bad achub mor agos ag y medrai at yr *Hindlea*. Llwyddodd y criw i gael gafael ar ddau o'r morwyr. Roedd y tywydd yn gwaethygu. Cydiodd Dic yn llyw y bad achub. Tra oedd yn gafael yn dynn yn y llyw â phob gewyn dechreuodd weddio, "O Dduw, arwain fi..." aeth geiriau ei weddi ar goll yn sŵn y ddrycin.

Deg o weithiau hyrddiodd Dic y bad achub tua dec yr *Hindlea*. Ambell dro roedd y bad achub yn codi'n syth o'r dŵr â'i starn yn yr awyr. Yna'n syrthio'n ôl i'r môr. Llwyddodd rhywsut i achub saith o'r

criw. Roedd un ohonyn nhw ar ôl. Penderfyniad anodd i Dic. Beth oedd am ei wneud? Troi'n ôl neu geisio unwaith eto achub yr un dyn oedd ar ôl. Mentrodd unwaith yn rhagor. Gwelai'r dyn ar ddec yr *Hindlea*. Hyrddiodd tuag at y llong ar gyflymder aruthrol. Glaniodd y bad achub ar ddec y llong, "Mae wedi darfod arnom ni," meddyliodd Dic. "Mi ddaw y don nesaf a'n hyrddio ni a chriw'r *Hindlea* i'r môr.

Ond yn wyrthiol taflodd y don nesaf y cwch yn glir oddi ar ddec yr *Hindlea* i'r môr. Am ddeng munud wedi dau roedd criw'r *Hindlea* yn saff ar fwrdd y bad achub. Saff! Roedd rhannau o'r bad achub wedi rhwygo. Tybed a fyddai modd mynd yn ôl i'r cwt? Dyma'r cwestiynau oedd yn poeni Dic ar ei ffordd yn ôl. Roedd y storm yn dal i ruo. Rhywsut, rywffordd cyrhaeddodd y bad achub y cwt. Ni welodd Dic erioed ffasiwn storm.

Ymhen rhai munudau roedd Dic, ei griw a chriw yr *Hindlea* yn cael paned o de a brechdanau yn festri capel Carmel. Roedd merched Moelfre wedi dod at ei gilydd i baratoi gwledd iddyn nhw. Fedrai Dic ddim yfed diferyn am fod y dagrau yn powlio i lawr ei ruddiau. Dagrau o lawenydd oedd dagrau Dic y pnawn hwnnw.

"Cododd tymestl fawr o wynt, ac yr oedd y tonnau'n ymdaflu i'r cwch, nes ei fod erbyn hyn yn llenwi."
Marc 4:37

O Dduw,
arwain fi
i wneud fy ngorau
dros y criw,
ond yn fwy na dim
arwain fi i achub
pawb sydd mewn perygl.
Amen.
(Gweddi Dic Evans)

Ydych chi'n credu bod Dic Evans wedi gwneud y penderfyniad iawn i fynd â dyn dibrofiad ar fwrdd y bad achub?
Oni fyddai hyn wedi achosi mwy o drwbl yn y pen draw?

Richard Evans: 1905–2001